

Gwyl Dewi Lloyd George

Alaw—"Gwnewch Bobbeth yn Gymraeg."

MAE'R enwog ŵr o Griccieth,
 Fu gynt yn fachgen tlawd,
 Yn nofio yn ei afiaeth,
 Ar donau cefnfor Ffawd;
 Bu'n gwledda ar wleidyddiaeth,
 A thyfu wnaeth yn gawr,
 Nes enill safle Brenin
 Di-goron Prydain Fawr.

Cydgan—Cyfarchwn yn Gymraeg,
 Yr anwyl Omeraeg,
 Y Prif Weinidog cyntaf,
 All siarad yn Gymraeg.

Gwir blentyn Cenhedlaethol
 Ddeffroad Cymru Wen,
 Fu'n holli y cymylau
 Wrth "geisio gloywach nen";
 Delfrydau'i wlad a ysodd,
 Nes cyneu'n eirias fflam,
 A chwrs ei weledigaeth
 A gerddai'n hyf bob cam.

Os ydyw "Gwlad y Bryniau"
 Gan rai yn destyn gwawd,
 Fe ŵyr y byd ben-baladr
 Nad ydyw Cymru'n dlawd;
 Mae cyfoeth ei mynyddoedd
 Yn y dyfnderoedd pell,
 Ond "Mab y Mynydd" heddyw,
 Sy'n olud canmil gwell.

Mae hen wroniaid Cymru
 Yn rhifo tyrfa fawr,
 Heblaw Cadwaladr Frenin,
 A Rhys ab Tewdwr Mawr,
 Llywelyn ein Llyw Olaf,
 Glyn Dŵr ac Elydr Ddu;
 Ond D. Lloyd George yw gwron
 Gwroniaid Cymru Fu.

Er colli'i dad yn blentyn,
 Ei ewythr, Richard Lloyd,
 Fu'n gystal tad ag undyn
 A fagodd blant erioed;
 Ar aelwyd amgylchiadau
 Bu'n siglo mwy na chryd,
 Y di-droi-'nol Wlad-weinydd
 Sydd heddyw'n siglo'r byd.

Mae rhyw Garadog Evans
 Yn poeri gwawd a sen
 I ddanedd Ymneillduaeth
 *"*My People*" Gwalia Wen;
 Er gwasgar *rubbish* rhagfarn
 Trwy gymhorth estron aeg,
 Lloyd George yw patrwm Cymru,
 Y Cymro, a Chymraeg.

Trwy droion gyrfa'r Senedd
 Dangosodd ystyr *lact*,
 Mae delw'r gwr a'i lluniodd
 Ar yr *Insurance Act*;
 Y llu gânt *Old Age Pension*
 Ddwed nad ynt ar y plwy',
 Mai D. Lloyd George sy'n rhoddi
 Eu Coron iddynt hwy.

Câd-nwyddau'r Fasnach Feddwol
 Sy'n ddinystyr mwy i'n gwlad
 Na *Submarines* y Germans
 Ym môr Atlantic brad;
 Ac os bu cewri'r Senedd
 Yn gwawdio llef y Gwir,
 Pwy wŷr nad *Prohibition*
 Fyn D. Lloyd George cyn hir.

* Llyfr Caradog Evans.

I weiniaid di-amddiffyn,
 Eu noddfa gadarn yw,
 Mae mân Genhedloedd Ewrob
 O hyn yn dystion byw;
 Gwarddwr gwlad (mae'r Ceisar
 Am ddamsang dan ei draed)
 Sy'n colli'i phlant anwylaf
 Yn eigion môr o waed.

Efe yw Moses Prydain,
 A'i lais adseinia'n groch,
 Fod llwybr gwardedigaeth
 Trwy ganol pob Môr Coch;
 Mai tynged pob Phar-a-oh,
 A'i holl farchogion, yw
 Cael bedd heb un maen coffa
 Ym môr digofaint Duw.

Uwch dyffryn tywyll—rhyfel,
 Tyr gwawr drwy'r anial dir;
 Daw bryniau Canaan—heddwch,
 I'r golwg cyn bo hir;
 Ac os oes bedd i'w dderbyn
 Cyn profi ffrwythau'r wlad,
 Saif Colofn Gwir Wasanaeth
 I'r oesau'n fyw goffhad.

“ Hen wlad y Cymantfaoedd,”
 Gwlad Awdl, Cân, a Cherdd,
 A “ Gwlad y Crwth a'r Delyn,”
 A'r “ Hen Geninen Werdd”;
 Gwlad anwyl, Nef Emynu
 Sy'n brofiad llu o'i phlant,
 Yw gwlad y Prif Weinidog
 Ar ddydd Gwyl Dewi Sant.

'Terms of Peace' y Ceisar

Alaw—"Pen Rhaw."

Ceisar gyfrwys, cynyg mae
'Wneyd heddwch a'i elynion,
Cyn gwel y Germans nad oes sail
I'w chael i'w wag obeithion,
Methiant fu ei amcan, ond
Mae rhyfel lond ei galon.

Cyn derbynir *Terms of Peace*
Ar bris y Ceisar atgas,
Bydd y *Crown Prince* yn ledo'i fand
Ar *stand* y Crystal Palace,
A'r Mynydd Mawr, gerllaw Bryn-fuwch,
Yn uwch na'r Himalayas.

Policy hen y "*wait and see*"
Gan Asquith oedd yn hoffi,
Policy newydd y "*push and go*"
Lloyd George sydd yn ei wasgu,
Ac ofni dydd y *sudden crash*
Mae Bill *Moustache* a'i gwmmi.

Tra bydd sôn am y Dardanelles,
A'r diluw *shells* bydd coffa;
Hefyd am German *Submarines*
A'r *Zep-el-eens* creulona',
Pan bydd yr anghenfil brwnt
Tu hwnt i St. Helena.

Penygroes, Llandebie.

R. MORGAN.

Jones a Mainwaring, Argraffwyr, Ammanford.